Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Mai 2025

> Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y sector defaid a nifer y ffactorau sy'n rhoi pwysau ar y prisiau pwysau marw presennol.
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



## PRIS PWYSAU MARW Y DU

- Mae prisiau pwysau marw cig oen dethol ar draws Prydain Fawr wedi bod yn dilyn tuedd cyffredinol am i lawr ers mis Mawrth, gyda thuedd is na lefelau blwyddyn yn gynharach ar gyfer prisiau cyfredol yn dilyn uchafbwyntiau 2024.
- Mae'r prisiau pwysau marw presennol ar gyfer ŵyn tymor newydd ar gyfartaledd tua £7.53/kg. Mae hyn yn £1.40 yn is na'r lefelau blwyddyn gynt, a 50c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd tymor hwy.

## TRWYBWN A CHYNHYRCHIANT Y DU

- Roedd cyfanswm trwybwn defaid a chig oen y DU ar gyfer Ebrill 2025 yn 1.1m pen, cynnydd o 15% flwyddyn ar flwyddyn, gyda chynnydd yn y trwybwn cig oen (+16%) a defaid difa (+3%) yn ôl data gan Defra. Mae cynnydd yn y cyflenwad ym mis Mawrth ac Ebrill yn awgrymu bod Ŵyn yr Hen Dymor a gariwyd drosodd yn cael eu cyflwyno.
- O edrych ar y flwyddyn hyd yma (Ionawr-Ebrill '25); mae cyfanswm trwybwn defaid ac ŵyn yn sefyll ar hyn o bryd **yn debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach ar 4.2m pen** (i lawr 0.4%). O fewn hyn, roedd trwybwn cig oen yn 3.7m pen (cynnydd o 1% ar y flwyddyn), tra bod trwybwn defaid difa i lawr 9% ar y flwyddyn, ar 419,600 pen.
- O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, ar hyn o bryd mae trwybwn cig oen dethol yn cyfrif am gyfran uwch o gyfanswm y lladd (ar 90%), o'i gymharu â 2024 ar 89% a 2023 ar 88%.
- O ganlyniad, mae cyfanswm cynhyrchiant cig defaid am y cyfnod o 4 mis ar hyn o bryd yn sefyll ar 89,100 tunnell (+0.02% ar y flwyddyn).
- Mae trwybwn ar gyfer y flwyddyn cnwd cig oen (h.y. Mai '24 i Ebrill '25) **i lawr bron i 5% ar y cnwd blaenorol ar 11.45m pen**. Mae arolwg mis Mehefin yn awgrymu maint cnwd cig oen o 15.2m ar gyfer 2024-25 – felly amcangyfrifir bod 75% o'r cnwd cig oen wedi'i brosesu. Mae hyn ychydig yn is na'r 78% a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, ond mae'n debyg i flynyddoedd cnwd cig oen 2022-23 a 2021-22 ar 75%.

## GALW CWSMERIAID Y DU

- Yn ôl data gan Kantar, tarodd chwyddiant 3.8% yn ystod y Pasg - y chwyddiant uchaf ers Mawrth '24. Byddai hyn heb os wedi rhoi pwysau ar bŵer gwario siopwyr.
- Roedd cyfanswm cyfaint cig oen dethol a werthwyd yn y siopau yn ystod y pythefnos i 20fed Ebrill **i lawr 8%** ar y flwyddyn, gyda gwerth hefyd i lawr 8% ar lefel Prydain Fawr.
- Er bod cig oen wedi tanberfformio'r Pasg hwn o'i gymharu â Pasg 2024, fe wnaeth **gynyddu ei gyfran** o'i gymharu â gweddill y flwyddyn (o 2% i 6%). Mae hyn yn awgrymu bod y Pasg yn dal yn bwysig i roi hwb i berfformiad Cig Oen wrth iddo ennill cyfran yn y categori 'Cig Pysgod Dofednod'.
- Collodd y categori rhostio cig oen siopwyr a chyfanswm cyfaint eleni er bod mwy yn cael ei roi ar hyrwyddiadau. Fodd bynnag, roedd pris cyfartalog Cig Oen oedd yn cael ei hyrwyddo (£8.78/kg) yn dal i fod **ddrutach** na chig eidion (£6.98/kg) a phorc (£4.69/kg) oedd yn cael ei hyrwyddo. Mae'n debygol bod hyn yn dylanwadu ar benderfyniad siopwyr yn y siop.
- Yn ogystal, eleni, mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod galw is am gig oen yn gyffredinol oherwydd bod y Pasg a'r Ramadan wedi'u gwahanu, gan arwain at gyfnod galw mwy estynedig ond llai dwys (o'i gymharu â Phasg 2024 a Ramadan 20204 yn syrthio'n agosach at ei gilydd).

## MASNACH Y DU

- Cyfanswm allforion cig defaid ffres ac wedi'i rewi yn y DU ar gyfer Chwarter 1(Ch1) 2025 (Ionawr i Fawrth) oedd 20,700 tunnell, **i fyny 1%** flwyddyn ar flwyddyn, wedi'i sbarduno gan gyfeintiau cynyddol sy'n cael eu cludo i wledydd o fewn yr UE. Roedd cyfeintiau allforio i fyny ar y flwyddyn, er bod y cynhyrchiant wedi gostwng 4% ar y flwyddyn.
- Derbyniodd Ffrainc a'r Iseldiroedd y cyfaint cynyddol yn Ch1 - gyda Ffrainc yn derbyn bron i 60% o'r gyfaint a anfonwyd.
- Fe wnaeth mewnforion cig eidion ffres ac wedi'i rewi ar gyfer Ch1 2025 **gynyddu bron i 5%** i 16,900 tunnell. Mewnforion o wledydd y tu allan i'r UE sbardunodd y cynnydd hwn - i fyny 6% ar y flwyddyn - yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cyfeintiau o Awstralia (i fyny 15%) a Seland Newydd (i fyny 2%).
- Mae Iwerddon yn parhau i fod y prif gyflenwr cig defaid o'r UE, gyda chyfeintiau yn cynyddu o 5%.




***Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?***

*Ar hyn o bryd mae sawl ffactor yn rhoi pwysau ar y farchnad ŵyn - gan gynnwys marchnad sydd wedi'i chyflenwi'n dda oherwydd bod mwy o ŵyn hen dymor yn cael eu cario drosodd. Fodd bynnag, mae diadell fridio sy'n crebachu a chnwd cig oen llai yn dangos cyflenwad fydd yn tynhau o bosibl yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Yn y cyfamser, mae'r galw defnyddwyr yn wan oherwydd chwyddiant a phremiwm pris cig oen dros gigoedd eraill - gan dynnu sylw at yr angen i gynnal cyfran o'r farchnad ddomestig. Mae'r galw am allforio yn parhau i fod yn gyfle allweddol, yn enwedig o fewn yr UE, gan helpu i gefnogi'r farchnad er gwaethaf pwysau domestig*

**Gweledigaeth** 2030 –
**rhowch eich barn!**
Cliciwch i agor yr arolwg.

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos sy'n dod i ben 24ain Mai

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **674.6c/kg**. Roedd hyn:


- - 9.0c ar yr wythnos flaenorol,
- 192.7c yn uwch na lefelau blwyddyn gynt.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 672.5c/kg (+ 9.9c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 661.8c/kg (- 7.5c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 534.6c/kg (- 2.8c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Ebrill 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 223,400 pen – gostyngiad o 6% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 169,700 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -7%, heffrod -2%, a theirw ifanc -9%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 346.2kg (+4.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 45,700 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos sy'n dod i ben 24ain Mai

Cyfartaledd pris ŵyn* pwysau marw ym Mhrydain oedd **753.0c/kg**. Roedd hyn:

- - 140.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 702.6c/kg).


Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 10,000 pen. Roedd hyn:


- - 18% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

**Sylwer: Dangosir ŵyn hen dymor rhwng 1 Ionawr a'r trydydd dydd Llun ym mis Mai, ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn – Ebrill 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 15% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 959,700 pen – cynnydd o 16% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 21.4kg (+0.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 101,500 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos sy'n dod i ben 24ain Mai

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **206.7c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.5c ar yr wythnos flaenorol,
- - 4.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn gynt,
- 21.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 184.8c/kg).

**Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn – Ebrill 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 867,300 pen – gostyngiad o 0.1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 851,400 pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 90.5kg (+0.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,000 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.

